**Ymateb i'r Adroddiad gan y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE 2014 - 2020 (Gorffennaf 2014)**

Y Prif Weinidog, y Gweinidog Cyllid, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Medi 2014

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad cryf i'r Undeb Ewropeaidd ac mae o'r farn bod aelodaeth yn hanfodol i lwyddiant Cymru a'r DU yn y dyfodol. Rydym yn ceisio gwneud y gorau posibl o'r manteision a ddaw i bobl Cymru yn sgil aelodaeth o'r UE, gan gynnwys y cyfleoedd masnach a buddsoddi sy'n codi o'r Farchnad Sengl, rhaglenni cyllido mawr yr UE (y Cronfeydd Strwythurol, y cymorth o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin a Horizon 2020), a'r amryw ffynonellau cyllid eraill a all gynnig cymorth gwerthfawr i Gymru. Rydym wedi gwneud achos dros gael y lefelau priodol o gyllid i Gymru drwy lwybrau sy'n cynnwys cysylltiadau rhynglywodraethol a'r Cydbwyllgor Gweinidogol (Ewrop).

Mae'r Undeb Ewropeaidd yn bartner buddsoddi pwysig i Gymru. Mae'r rhaglenni cyllido a nodir yn y ddogfen hon, ynghyd â'r Cronfeydd Strwythurol, Horizon 2020 a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, yn cyfuno â chronfeydd Llywodraeth Cymru a buddsoddiad arall i luosogi'r effaith ar economi Cymru. Ar hyn o bryd, mae cronfeydd yr UE yn rhoi ymhell dros hanner biliwn o bunnoedd y flwyddyn i economi Cymru. Maent yn cyfrannu at dargedau twf a swyddi yr UE yn y strategaeth Ewrop 2020, sy'n ategu'r rheini sydd yn ein *Rhaglen Lywodraethu* ni.

Rydym felly'n croesawu'r Adroddiad gan y Pwyllgor Menter a Busnes. Rydym yn ysgogi ac yn cefnogi sefydliadau Cymru i gymryd cymaint â phosibl o ran ym mhrosiectau'r UE a ffurfio cydweithrediadau gyda sefydliadau tebyg ledled Ewrop. Mae ein hymateb i'r adroddiad hwn yn dangos amrywiaeth eang o weithgareddau a chanlyniadau cadarnhaol o ran sicrhau bod sefydliadau ac unigolion Cymru yn elwa ar yr ystod lawn o gyllid yr UE.

Mae Llywodraeth Cymru, yn ogystal â hwyluso sefydliadau o Gymru i gymryd rhan yn rhaglenni cyllido yr UE, hefyd yn arwain neu'n bartner mewn nifer o brosiectau. Roedd y Llywodraeth yn bartner cenedlaethol yn *Equity Action*, y Cydweithrediad ar Anghydraddoldebau Iechyd (2011-2014) a ariannwyd gan yr UE i nodi a rhannu arfer gorau. Hefyd cymerodd ran mewn nifer o brosiectau ieuenctid ac addysg yr UE (er enghraifft ar amrywiaeth ieithyddol, symudedd a fframweithiau credydau a chymwysterau) ac mewn nifer o brosiectau cydweithredu tiriogaethol, fel y Rhwydwaith Rhanbarthau Ynni Adnewyddadwy neu rwydweithiau digidol ar gyfer busnes.

Yn ein Rhaglenni Gweithredol drafft (2014-202) ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, rydym wedi nodi'n glir y dylai prosiectau sy'n cael cymorth drwy raglenni cyllido eraill yr UE fel Horizon

2020, Erasmus+ neu Cysylltu Ewrop, lle bo'n briodol, ategu ac atgyfnerthu ein Buddsoddiad Cronfeydd Strwythurol.

Mae Llywodraeth Cymru yn llunio Rhaglen Waith flynyddol ar faterion yn ymwneud â'r UE. Mae hyn yn gysylltiedig â Rhaglen Waith flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd a blaenoriaethau Llywyddiaeth y Cyngor. Byddwn yn nodi mentrau polisi a chynigion deddfwriaethol penodol er mwyn canolbwyntio arnynt dros y flwyddyn i ddod. Yn dilyn pob Rhaglen Waith, caiff Adroddiad Blynyddol ei lunio ar ddiwedd y flwyddyn ar ein gweithgareddau a'n cynnydd i nodi'r datblygiadau hollbwysig ac olrhain cynnydd.

Mae'r mentrau yn y Rhaglen Waith ar gyfer 2014-2015 yn cynnwys y canlynol. Yn gyntaf, ceir Strategaeth Cydweithredu Tiriogaethol ar ei newydd wedd ar gyfer Cymru er mwyn cryfhau ymgysylltu awdurdodau lleol ar draws yr holl Raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd.

Yn ail, rydym hefyd yn gweithio gyda Llywodraethau Iwerddon a'r DU i ymchwilio i gyfleoedd buddsoddi posibl yn sgil cyllid Cyfleuster Cysylltu Ewrop. Drwy raglenni 2007-2013, rydym wedi ymrwymo £234m o gymorth yr UE drwy'r Cronfeydd Strwythurol ar gyfer prosiectau seilwaith ffyrdd, rheilffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus arall, gan lywio cyfanswm buddsoddiad mewn prosiectau o fwy na £445m.

Yn drydydd, fel aelod o Fwrdd Erasmus+, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro data gan yr Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Erasmus+, a’r British Council, mewn partneriaeth ag Ecorys UK (cyfeirir at hyn fel yr Asiantaeth Genedlaethol o hyn ymlaen) ar gyfraniad Cymru at y rhaglen Erasmus+, gan gynnwys y sector ieuenctid.

Yn olaf, byddwn yn gweithio ym Mhwyllgor Rhaglen Ewrop Greadigol yr UE i ailasesu'r dulliau a ddefnyddir i sicrhau bod gwledydd capasiti cynhyrchiant uchel ac isel yn cael eu trin yn yr un modd yn yr Is-raglen MEDIA, gyda'r bwriad o sicrhau nad yw'r sector dan anfantais yng Nghymru.

Rydym eisiau gwneud y gorau posibl o'r cyfleoedd sydd ar gael drwy'r holl ffrydiau cyllido Ewropeaidd, gan gynnwys rhaglenni'r UE sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol, i sicrhau prosiectau trawsnewidiol a fydd yn cefnogi'n blaenoriaethau twf economaidd a swyddi cynaliadwy, a threchu tlodi.

**Ymatebion i argymhellion unigol**

**Argymhelliad 1.** *Sicrhau bod y strategaeth newydd ar yr UE yn gosod amcanion clir i sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl ym mhob rhaglen UE sydd ar gael i Gymru, gan gynnwys bod gofyniad ar adrannau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo ymgysylltu o fewn eu cylch gwaith, a manteisio ar y profiad a'r arbenigedd sylweddol ar bolisi a chyllid yr UE sydd ar gael yng Nghymru ac ymhlith cynrychiolwyr ym Mrwsel.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Fel y nodwyd yn yr ymateb i'r adroddiad ar rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, bydd llunio Strategaeth newydd Llywodraeth ar yr UE yn gysylltiedig â'r cylch yng Nghymru, yn union fel y mae Strategaeth gyfredol yr UE yn gysylltiedig â thymor gweinyddiaeth Llywodraeth Cymru. Un o swyddogaethau ein Strategaeth UE yw sefydlu sut y byddwn yn cysylltu cyllid a pholisi’r UE â’n dyheadau ar gyfer Cymru.

Wrth gwrs, mae’n angenrheidiol bod Llywodraeth Cymru yn addasu ei dull o weithredu i ystyried y newidiadau yn yr amgylchiadau sy’n deillio o gylch gwleidyddol yr UE. Y dull priodol o adlewyrchu hyn yw drwy Raglen Waith flynyddol flaengar yr UE sy’n cael ei chynhyrchu gennym fel un o’n hymrwymiadau yn ein Strategaeth UE, ynghyd ag Adroddiad Blynyddol ar weithgareddau’r gorffennol. Nod sylfaenol Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo’r manteision i Gymru sy’n deillio o gyfranogiad yn rhaglenni’r UE.

Rydym yn cydnabod bod mantais amlwg o ddod ag arbenigedd a phrofiad ynghyd, a hynny yng Nghymru ac â chynrychiolwyr ym Mrwsel. Rydym yn cydweithredu ac yn ymgysylltu ag ystod eang o arbenigwyr, er enghraifft drwy aelodaeth o grwpiau rhaglenni WEFO, gweithio gyda busnes i chwilio am gyfleoedd i fuddsoddi, a gweithio gydag amryw dimau polisi yr UE.

Rydym eisiau gwneud y gorau posibl o'r cyfleoedd sydd ar gael drwy'r holl ffrydiau cyllido Ewropeaidd, gan gynnwys rhaglenni'r UE sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol, i sicrhau prosiectau trawsnewidiol a fydd yn cefnogi'n blaenoriaethau twf economaidd a swyddi cynaliadwy, a threchu tlodi.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau presennol ac mae'r gwaith yn ymwneud â chysylltiadau a rhwydweithiau presennol.

**Argymhellion 2 a 3**

**Argymhelliad 2.** *Ystyried sefydlu “Hyrwyddwr Cyllid yr UE” yng Nghymru i roi arweiniad wrth yrru'r gwaith o ddarparu a gweithredu strategaeth newydd yr UE a darparu canolbwynt ar gyfer materion yr UE yng Nghymru.*

**Argymhelliad 3.** *Sefydlu dolen gyswllt ganolog ar gyfer sefydliadau yng Nghymru ac ar gyfer y rhai y tu allan i Gymru sy'n chwilio am bartneriaid o Gymru.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r Pwyllgor bod cryn arbenigedd yng Nghymru ar y gwahanol raglenni cyllid sy'n cael eu hystyried yn yr adroddiad.

Mae'r Gweinidog Cyllid, sydd â chyfrifoldeb dros Gronfeydd Strwythurol, Cydweithio Tiriogaethol, Horizon 2020 a rôl mewn materion polisi'r UE, a chydweithwyr y Cabinet mewn meysydd portffolio perthnasol, yn eiriolwyr cryf ac amlwg iawn ar gyfer cyllid Ewropeaidd. Byddwn yn ystyried yn ofalus ffyrdd o roi cyhoeddusrwydd gwell i eiriolaeth y Llywodraeth o feysydd ehangach o gyllid yr UE, a chydweithredu'n well gydag arbenigwyr ar lawr gwlad yng Nghymru, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r sefydliadau a gynrychiolir yn Nhŷ Cymru ym Mrwsel (Llywodraeth Cymru, CLILC, Addysg Uwch Cymru Brwsel a Chynulliad Cenedlaethol Cymru) a chyrff a rhanddeiliaid eraill.

Yn ogystal, bydd y Llywodraeth yn nodi swyddog cyswllt canolog yng Nghymru ac yn clustnodi'r arbenigedd a geir ar y rhaglenni cyllido unigolion y mae'r adroddiad hwn wedi'u hystyried. Drwy hyn bydd modd llunio rhestr o arbenigwyr a all helpu gydag ymholiadau manylach a cheisiadau chwilio gan bartneriaid. Bydd modd i'r swyddog cyswllt canolog helpu gydag ymholiadau neu gyfeirio syml, ond yn amlwg bydd angen cyngor mwy arbenigol ar rai sefydliadau neu unigolion.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 4.** *Datblygu cymorth arbenigol, wedi'i deilwra, ar gyfer y sectorau ieuenctid, addysg a thrafnidiaeth tebyg i fodel MEDIA Antenna y sector diwylliannol.*

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Caiff y cymorth arbenigol ar gyfer y sector addysg ei ddarparu gan yr Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Erasmus+, a'r her i Lywodraeth Cymru yw sicrhau bod yr Asiantaeth yn cyflawni dros Gymru. Mae gan Lywodraeth Cymru gynrychiolaeth ar Fwrdd y DU sy'n goruchwylio'r Asiantaeth, y pum grŵp cynghori sectoraidd (ar gyfer Addysg Uwch, Addysg a Hyfforddi Galwedigaethol, Dysgu Oedolion ac Ieuenctid) y mae'r Asiantaeth Genedlaethol wedi'u sefydlu ar gyfer Erasmus+ a Grŵp Cynghori Gwladol Cymru. Bydd felly'n defnyddio'r fforymau hyn i fonitro gwaith yr Asiantaeth a'r niferoedd sy'n ymuno â'r rhaglen yng Nghymru.

Wrth gwrs rydym hefyd yn gweithio'n hynod agos gyda'r Asiantaeth i hyrwyddo cyfleoedd Erasmus+ i unigolion, sefydliadau a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru. Yn gysylltiedig â'n hymateb i Argymhellion 2 a 3, rydym wrthi'n

gweithio gyda'n gilydd i asesu pa gymorth ychwanegol y gellir ei ddarparu, naill ai o ran cyngor i ymgeiswyr, gwaith hyrwyddo, neu mewn perthynas â'n gweithgareddau entrepreneuriaeth ieuenctid. Er enghraifft, bydd y British Council yn cynnal gweithdai ynghylch 'Rhyngwladoli Pobl Ifanc yn y DU' yn Ne a Gogledd Cymru yn yr hydref.

Rydym yn credu bod gan Cyswllt Cymru, sef y darparwr gwybodaeth yng Nghymru ar gyfer ffrwd ieuenctid y rhaglen Erasmus+, rôl allweddol i'w chwarae o ran cefnogi'r sector ieuenctid yng Nghymru i gyfrannu cymaint â phosibl at Erasmus+.

Fodd bynnag, ni fernir bod y math hwn o fodel yn addas ar gyfer trafnidiaeth. O ystyried maint y prosiectau a'r ffaith bod ganddynt ffocws seilwaith mwy strategol, mae'r ymgeiswyr naill ai'n dod o lywodraeth, cyrff cyhoeddus eraill neu ddiwydiannau mawr.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 5.** *Meithrin partneriaethau rhwng rhanddeiliaid ledled y sectorau addysg uwch a phellach, byd busnes a'r trydydd sector i rannu arbenigedd, adnoddau ac arferion da.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy amryw fforymau, gan gynnwys addysg uwch ac addysg bellach, busnes a'r trydydd sector.

Er enghraifft, fel y nodir yn yr ymateb i Argymhelliad 4, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r holl randdeiliaid allweddol sydd â diddordeb yn Erasmus+ drwy Grŵp Cynghori Gwladol Cymru. Ar ben hyn, fel y clywodd y pwyllgor, mae gan Antenna Ewrop Greadigol Llywodraeth Cymru gyswllt agos a rheolaidd gyda chwmnïau o Gymru i godi ymwybyddiaeth am y rhaglen a helpu cwmnïau i fanteisio ar y ffrydiau cyllido.

Mae gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru Uned Cydweithio Tiriogaethol sy'n gweithio gyda rhanddeiliaid i hyrwyddo cyfranogiad cynyddol a mwy effeithiol yn rhaglen Cydweithio Tiriogaethol yr UE. Mae strwythurau'n cael eu datblygu o hyd ar gyfer cylch cyllido 2014-2020, ond rhagwelir y bydd swyddog cyswllt yng Nghymru fel rhan o rwydwaith y DU gyfan.

Mae Fforwm Cymru ar Ewrop yn tynnu ystod eang o randdeiliaid ynghyd. Ddechrau 2015, bydd y Llywodraeth yn trefnu fforwm yn benodol ar raglenni cyllido'r UE sy'n cael eu rheoli'n ganolog. Mae fforwm yr hydref ar ddiweithdra pobl ifanc eleni yn cynnwys gweithdy ar brosiectau.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol a chostau rhedeg.

**Argymhelliad 6.** *Adolygu'r gynrychiolaeth yn Nhŷ Cymru ym Mrwsel er mwyn mynd i'r afael â bylchau cyfredol, yn enwedig o ran sut y gall busnesau, addysg bellach a'r trydydd sector a'r sectorau creadigol a diwylliannol gyrchu ei wasanaethau.*

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Mae'r Llywodraeth yn cefnogi naws yr argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gadw ein Swyddfa yr UE ym Mrwsel, sy'n gweithio i hyrwyddo a diogelu buddiannau Cymru yn yr UE, yn ogystal â hybu'n proffil.

Mae swyddfa'r UE Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio gyda'r sectorau a nodwyd, er enghraifft gan gydweithio gyda Colegau Cymru ar raglen Erasmus+ a'i ragflaenyddion. Mae'r swyddfa hefyd yn gweithio gyda'r sector diwylliant drwy Celfyddydau Rhyngwladol Cymru ar gyfleoedd i'r sector ac mae wedi datblygu perthynas agos gyda Media Antenna, eto'n darparu gwybodaeth reolaidd am fentrau perthnasol a datblygiadau polisi yr UE. Enghraifft arall o ymgysylltu gyda'r sector diwylliannol a chreadigol oedd digwyddiad a drefnwyd mewn partneriaeth ag S4C a VRT, y darlledwr cyhoeddus o Fflandrys, i hyrwyddo Y Gwyll/Hinterland (a gafodd gyllid Media 2007), lle cyhoeddodd VRT y byddai'n prynu'r ail gyfres.

Mae cynrychiolydd o'r tîm masnach a buddsoddi yn swyddfa'r UE Llywodraeth Cymru hefyd wedi cwrdd â Rhwydwaith Menter Ewropeaidd Cymru, a bydd yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod y pryderon ynghylch yr heriau i'r trydydd sector mewn perthynas â mynediad at raglenni cyllido Ewropeaidd, yn enwedig y rheini y tu allan i Gronfeydd Strwythurol yr UE, a byddwn yn gweithio’n ddiwyd gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i’w helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae cysylltiadau cryf yn bodoli eisoes, ac mewn ymateb i'r adolygiad, bydd Swyddfa'r UE yn cwrdd â chynrychiolwyr o bob sector i bwyso a mesur a gwneud gwelliannau lle bydd angen. Rydym yn croesawu cyfleoedd i gyd-leoli â sefydliadau o Gymru wrth iddynt godi, gan gynnwys yn y sector busnes a'r trydydd sector, fel ffordd o ymestyn a datblygu Tîm Cymru yn yr UE.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol.

**Argymhelliad 7.** *Pennu amcanion clir ar gyfer pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru i ymgysylltu’n fwy â strategaeth y DU gyfan ar gyfer symudedd allanol myfyrwyr, gan gynnwys: ymgyrch i hyrwyddo manteision astudio a gweithio dramor, darparu cyrsiau dysgu iaith, cynorthwyo gyda darpariaeth llety tymor byr, rhyngwladoli'r cwricwlwm a darparu gallu a chyllid cymesur.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi arwydd clir i sefydliadau addysg uwch y dylid rhoi sylw i strategaeth symudedd allanol myfyrwyr y DU, fel y nodir yn ein datganiad polisi ar addysg uwch, tudalennau 13-14. Mae'r datganiad yn nodi'n glir bod symudedd rhyngwladol myfyrwyr o fudd i sefydliadau a myfyrwyr fel ei gilydd, na ddylai fod "unrhyw rwystrau – gwirioneddol neu ganfyddedig – i symudedd", a bod rhaid cynnig cyfleoedd i bawb, waeth beth fo'u cefndir.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag Addysg Uwch Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r British Council i hybu cyfleoedd ar gyfer symudedd allanol myfyrwyr. Mater i sefydliadau unigol yw darparu cyrsiau iaith, llety tymor byr, cwricwla rhyngwladoli, adnoddau a chyllid, ond gall ceisiadau llwyddiannus am gymorth Erasmus+ hwyluso rhywfaint o hynny.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 8.** *Gyda sefydliadau addysg uwch, ymchwilio i'r posibilrwydd o greu rhwydwaith o gyn-fyfyrwyr ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol, gan gynnwys myfyrwyr Erasmus, sydd wedi astudio yng Nghymru a myfyrwyr o Gymru sydd wedi astudio dramor, er mwyn sicrhau bod eu cysylltiadau rhyngwladol yn cael yr effaith fwyaf bosibl.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r argymhelliad hwn a bydd yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i wneud y gorau posibl o effaith cysylltiadau rhyngwladol.

Byddwn yn ceisio adeiladu ar y rhwydwaith o Fyfyrwyr Llysgenhadon Iaith, sef israddedigion ar gyrsiau iaith sy'n ymweld ag ysgolion a cholegau yng Nghymru drafod eu profiadau o ddysgu iaith dramor, a fydd yn y rhan fwyaf o achosion yn cynnwys 'blwyddyn Erasmus' yn un o Aelod-wladwriaethau eraill yr UE.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gydag Uned Ryngwladol AU y DU fel aelod o'i Bwrdd Cynghori a'i Rhaglen Symudedd Allanol, a fydd hefyd yn datblygu rhwydwaith cyn-fyfyrwyr.

Fel rhan o'i weithgarwch datblygu rhyngwladol, mae Addysg Uwch Cymru yn cynnal adolygiad o gysylltiadau rhyngwladol presennol er mwyn nodi meysydd twf posibl a blaenoriaethau a allai gynnwys ystyried rhwydwaith cyn-fyfyrwyr rhyngwladol

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol.

**Argymhelliad 9.** *Dwyn ynghyd sectorau addysg bellach ac uwch ac asiantaethau cenedlaethol fel y British Council, Ecorys a sefydliadau fel ECTARC i ddatblygu synergeddau, rhannu arferion gorau, a meithrin cysylltiadau i gyrchu elfennau cyllid ar wahân ac ymgysylltu â'r rhaglenni a gynhelir ar hyn o bryd o fewn y Comisiwn Ewropeaidd.*

**Ymateb: Derbyn**

Fel y nodir uchod, mae Llywodraeth Cymru (argymhellion 4 a 5) yn aelod o Grŵp Cynghori Gwladol Cymru Erasmus+, sef y prif gyfrwng ar gyfer datblygu synergeddau a chysylltiadau. Ar ben hyn, bydd yr Asiantaeth Genedlaethol hefyd yn trefnu digwyddiadau a seminarau yng Nghymru ar raglenni ar gyfer pob sector.

O safbwynt Llywodraeth Cymru, bydd Fforwm nesaf Cymru ar Ewrop yn dwyn yr enw "Yr UE yn gweithio i Gymru: ymchwilio i ffyrdd llwyddiannus o drechu diweithdra pobl ifanc" a bydd yn cynnwys gweithdy ar brosiectau'r UE.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 10.** *Monitro tueddiadau o ran symudedd myfyrwyr, gan gynnwys data y British Council ar ei raglenni Erasmus+ a rhaglenni ieuenctid, a sicrhau bod canlyniadau ac effaith ymgysylltu a chyfranogi gan y sector ieuenctid yn cael eu dal yn systematig.*

**Ymateb: Derbyn**

Fel aelod o Fwrdd Erasmus+, dan gadeiryddiaeth Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau y DU, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn data rheolaidd gan yr Asiantaeth Genedlaethol ar raglen Erasmus+, gan gynnwys y sector ieuenctid. Bydd y mater hwn yn cael ei drafod, er enghraifft ym Mwrdd Cynghori'r Sector Ieuenctid. Mae gan Lywodraeth Cymru gynrychiolaeth ar y bwrdd hwn, fel y nodwyd uchod. Yn wir, anfonwyd yr adroddiad diwethaf a ddarparwyd ar gyfer y Rhaglen Dysgu Gydol Oes flaenorol yn 2013 at holl Aelodau'r Cynulliad yn dilyn cais yn ystod y Cwestiynau Busnes ar 17 Mawrth 2014.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 11.** *Ystyried darparu cyllid strategol craidd ar gyfer sefydliadau ieuenctid yng Nghymru i weithio gyda'i gilydd i gyrchu mwy o gyllid yr UE ar gyfer gwaith ieuenctid a gwirfoddoli rhyngwladol.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Cyswllt Cymru drwy grant y Rhaglen Addysg Ryngwladol i'r British Council.

Diben y cymorth yw meithrin ymgysylltu sefydliadau ieuenctid ag Erasmus+ a'i ragflaenydd Ieuenctid ar Waith. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda sefydliadau ieuenctid ledled Cymru a'u hannog i dynnu ar gymaint â phosibl o arian Ewropeaidd i gefnogi eu gweithgareddau.

Nod Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru, sef y strategaeth bedair blynedd newydd, yw codi statws gwaith ieuenctid fel gwasanaeth ac fel proffesiwn. Mae'r strategaeth newydd yn cyd-fynd yn agos â Strategaeth Ieuenctid yr Undeb Ewropeaidd*, An EU Strategy for Youth – Investing and Empowering* (2010-2018), yn ei nod i sicrhau bod pobl ifanc, yn enwedig y rheini o gefndiroedd dan anfantais, yn cael cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol amrywiol sy'n ymestyn eu gorwelion ac yn eu helpu i fagu hyder.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i wasanaethau ieuenctid er mwyn cefnogi prosiectau gwaith ieuenctid Ewropeaidd.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 12.** *Gweithio gyda llywodraeth leol i ddwyn ynghyd y bobl sydd â'r arbenigedd perthnasol i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer cryfhau a hyrwyddo cyfranogiad uniongyrchol awdurdodau lleol yn y gwaith ehangach o ddatblygu a chychwyn ffrydiau polisi ac ariannu Ewropeaidd ac ar gyfer integreiddio'r cronfeydd gwahanol i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Cymru.*

**Ymateb: Derbyn**
Byddwn yn gweithio gyda llywodraeth leol ar unrhyw waith y mae'n ei wneud i gryfhau cyfranogiad awdurdodau mewn rhaglenni cyllido Ewropeaidd.

Ar lefel Cymru, bydd Strategaeth Cydweithio Tiriogaethol Cymru yn cael ei datblygu ar ffurf newydd. Bydd y strategaeth hon yn gosod gweledigaeth ar gyfer Cydweithio Tiriogaethol yng Nghymru at y dyfodol. Fel rhan o ddatblygu'r strategaeth hon, bydd gwaith yn digwydd i gryfhau ymgysylltu gan awdurdodau lleol ar draws yr holl raglenni Cydweithio Tiriogaethol Ewropeaidd y mae Cymru'n gymwys i gymryd rhan ynddynt, yn ogystal ag integreiddio'r rhaglenni hyn yn well.

Ar lefel y DU, mae Bwrdd Cydweithio Tiriogaethol Ewropeaidd y DU wrthi'n ystyried strwythurau llywodraethu a methodoleg ar gyfer gwneud y gorau posibl o ymgysylltu gan bartneriaid y DU, gan gynnwys awdurdodau lleol ar draws y rhaglenni Cydweithio Tiriogaethol Ewropeaidd y mae'r DU yn gymwys i gymryd rhan ynddynt. Mae Llywodraeth Cymru yn aelod o'r bwrdd ac yn cymryd rhan bwysig yn y trafodaethau hyn. Mae'r trafodaethau hyn yn parhau, ac mae'r strwythur a'r fethodoleg wrthi'n cael eu datblygu. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd rhwydwaith cydlynus o swyddogion cyswllt ar draws y DU gyfan, gan gynnwys Cymru. Byddant yn gweithio ar draws pob sector, gan gynnwys llywodraeth leol, i helpu i ddarparu rhaglenni.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 13.** *Hyrwyddo sector diwydiannau creadigol Cymru yn Ewrop er mwyn sicrhau nad yw cwmnïau o Gymru o dan anfantais wrth wneud cais am gyllid drwy raglen Ewrop Greadigol oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn rhan o ddiwydiant clyweledol cryf y DU yn gyffredinol.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae swyddogion Creative Europe Desk Cymru eisoes yn trafod y mater hwn ar lefel Ewropeaidd.

Mae Pwyllgor Rhaglen Ewrop Greadigol wedi sefydlu gweithgor i ailasesu'r dulliau a ddefnyddir i sicrhau bod gwledydd capasiti cynhyrchu uchel ac isel yn Is-raglen MEDIA yn cael eu trin yn yr un modd. Ar hyn o bryd, caiff ceisiadau gan gwmnïau i Is-raglen MEDIA eu hasesu yn ôl a yw'r cwmni yn dod o un o'r pum gwlad fawr â chapasiti cynhyrchu uchel (h.y. y DU, yr Almaen, Sbaen, Ffrainc a'r Eidal) neu wlad fach â chapasiti cynhyrchu isel. Rhoddir 'pwyntiau awtomatig' i'r rheini o wledydd bach i wneud y sefyllfa'n fwy teg.

Mae cynrychiolaeth y DU ar y gweithgor wedi'i rhannu rhwng Cymru, Lloegr a'r Alban. Cynrychiolodd swyddogion Llywodraeth Cymru y DU yn y cyfarfod diwethaf ar 17 Mehefin 2014. Mae'r gweithgor hwn yn gyfle i ni sicrhau cynrychiolaeth lawn i safbwyntiau a buddiannau diwydiannau creadigol Cymru wrth wneud cais am gyllid Ewrop Greadigol.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd y gweithgareddau hyn yn tynnu ar gyllidebau cyfredol.

**Argymhellion 14, 15 ac 16**

**Argymhelliad 14.** *Adolygu a dysgu o'r ymgysylltu blaenorol a gafwyd gyda DG MOVE ac Asiantaeth Weithredol TEN-T ym Mrwsel, gan ganolbwyntio ar drafod Rheoliadau diweddar TEN-T a CEF a'r diffyg ceisiadau o Gymru ar gyfer rhaglen 2007-13.*

**Argymhelliad 15.** *Datblygu perthynas waith agos â DG MOVE, yr Asiantaeth Weithredol Arloesedd a Rhwydweithiau a'r Cydgysylltwyr TEN-T er mwyn sicrhau bod Cymru'n manteisio'n llawn ar y CEF.*

**Argymhelliad 16.** *Gweithio gyda rhanddeiliaid o Gymru, yr Adran Drafnidiaeth a phorthladdoedd craidd mewn Aelod-wladwriaethau eraill, yn enwedig Iwerddon, i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a datblygu cyfres o brosiectau priodol.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae gwall yn nhestun yr adroddiad ynghylch Argymhelliad 14. Mae'n nodi nad ydym wedi cael unrhyw gyllid drwy TEN-T ond nid yw hyn yn wir. Mae Cymru wedi bod, ac yn parhau i fod, yn rhan annatod o'r consortiwm aml-wladwriaeth sydd wedi elwa ar gyllid TEN-T o dan y tranche 2007-2013 i ddefnyddio Systemau Trafnidiaeth Deallus cyfannol ar ein rhwydwaith ffyrdd strategol. Mae Cymru eisoes wedi cael £5.2 miliwn ar gyfer Systemau Trafnidiaeth Deallus, sef y prosiect 'EasyWay' a'r prosiect 'Streetwise', o dan y tranche 2007-2013, ac rydym yn disgwyl cael cyllid pellach o dan Alwad derfynol 2013.

Rydym yn parhau i ymgysylltu’n weithredol ac yn uniongyrchol â'r Comisiwn Ewropeaidd, yr Adran Drafnidiaeth, Network Rail a rhanddeiliaid, gan gynnwys y porthladdoedd a'r Tasglu Gweinidogol ar Drafnidiaeth Gogledd Cymru, i helpu i wneud y gorau posibl o'r cyfleoedd buddsoddi yn sgil aelodaeth Cymru o'r rhwydwaith TEN-T o dan y trefniadau newydd.

Rydym wedi cychwyn trafodaeth gyda'r porthladdoedd a Llywodraeth Iwerddon ynghylch prosiectau posibl o dan 'Traffyrdd y Môr', sef un o'r blaenoriaethau llorweddol o dan TEN-T. Rydym hefyd yn barod i gysylltu'n uniongyrchol â'r Asiantaeth Weithredol Arloesi a Rhwydweithiau (cangen dechnegol DG MOVE) pan fydd gennym ragor o fanylion am brosiectau ar gyfer ceisiadau posibl.

Mae'r cyfleoedd buddsoddi posibl yn cynnwys cyllid Cyfleuster Cysylltu Ewrop, ond mae'n bwysig gwerthfawrogi mai cymharol fach yw'r swm sydd ar gael ar gyfer TEN-T mewn gwladwriaethau sydd heb ddod yn aelodau. Hefyd mae'n debygol y bydd gormod yn rhan o'r broses ymgeisio gystadleuol yn sgil nifer a maint y prosiectau tebygol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim ar hyn o bryd. Byddai unrhyw oblygiadau yn dibynnu ar natur unrhyw brosiectau sy'n cael eu cyflwyno a'r ffynonellau sydd ar gael ar gyfer arian cyfatebol.